# D. TECWYN LLOYD yn bwrw ei linyn mesur tros y
# Cylchgrawn i'r Hen Blant

YNGHANOL yr holl hŵ-ha ynglŷn â phrofi doniau plant saith oed a chynlluniau hanner-nerco tebyg sydd ohoni ym myd addysg plant heddiw, nid drwg o beth yw gofyn pryd y daeth plant i fod.

Nid yn yr ystyr fiolegol, wrth gwrs; anodd fyddai setlo'r cwestiwn hwnnw. Sôn yr wyf am blant fel syniad neu ddelwedd; fel creaduriaid gwahanol i bawb nad ydynt blant ac fel bodau y mae'n rhaid eu gwisgo'n wahanol i bobl

A llenyddiaeth. Heddiw, nid yr un peth yw sgrifennu 'llenyddiaeth i blant' rhagor i bobl mewn oed ac ers amser bellach bu 'sgrifennu i blant' yn ddiwydiant digon llewyrchus. Ond pryd cychwynnodd y peth?

Yn Lloegr, mae'n debyg mai Chwedlau Aesop oedd un o'r llyfrau cyntaf a ddarllenid gan blant. Cyfieithwyd hwy o'r Ffrangeg gan Caxton ac argraffodd hwy yn 1484, ac yn 1485 argraffodd chwedlau Arthur a'r Ford Gron gan Malory a bu hwnnw mor boblogaidd fel mai dim ond un copi cyflawn sydd ar gael erbyn heddiw. Wrth gwrs, nid fel 'llyfrau plant' yr ystyrid hwy, dim ond fod plant yn eu mwynhau.

Canys nid plant ond 'pobl fach' oedd plant. 'Roeddynt yn llai o ran corff a nerth corfforol na'u rhieni, yn llai hefyd o ran gwybodaeth a dyfalbarhad, ond copïau graddfa fechan o wŷr a gwragedd yn eu llawn faint oeddynt a dyna sut y dylid eu trafod. Gwisgid hwy yn yr un modd â'u rhieni — fel y dengys lluniau ac ysgythriadau cyfoes; yr un toriad, ond un llai.

Rhybuddiol a duwiolaidd (pious) yw cyweirnod y deunydd. Wele enghraifft o'r *Looking Glass for Children* (1671):

*What pity such a pretty maid*
*As I should to to Hell!*

Fodd bynnag, nid sôn am ddatblygiad llên plant yn Lloegr a fynnaf; digon yw dweud iddo golli dylanwad dismol a rhybuddiol y piwritaniaid i gryn fesur erbyn canol y 19 ganrif. Nid felly y bu'r hanes yng Nghymru yn yr un ganrif.

* * * *

Y DDAU gylchgrawn Cymraeg cyntaf a fwriedid ar gyfer plant oedd *Yr Addysgydd* gan Lewis Edwards (y Dr wedyn), a *Pethau Newydd a Hen* gan Richard Newell a Morris Davies. Blwyddyn, sef 1826, fu oes y cyntaf a thair blynedd (1826-29) a barhaodd yr ail. Cyhoeddwyd y naill yn Aberystwyth a'r llall gan R Jones, Dolgellau.

Mae'n digwydd bod gennyf gopi o'r *Pethau Newydd a Hen*. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf yn Ionawr 1826. Bechan yw maint y ddalen, sef 2.5" × 4.1" a cheir 16 tudalen ymhob rhifyn misol. Maint bychan sydd i'r ddalen am mai ar gyfer pobl fychan y bwriedid ef.

Ysgrif flaen y rhifyn cyntaf yw:

**Hanes fer am Rees, mab Shadrach ac Alice Thomas, o dafarndy y Croesbibelli, yn Llanfair Caereinion, yr hwn a fu farw, Hydref 12, 1823 yn 14 mlwydd oed.**

Awff o deitl. Mae'n anodd i ni heddiw gredu'r portread sydd otano, ond bu'n gynsail i sawl un tebyg a gawsom wedyn. Dyma'r plentyn anhygoel arallfydol sydd yn graddol farw gan stribedu llu o benillion ac adnodau; hyn yw prif ddeunydd yr ysgrif a deunydd a fwriedid ar gyfer plant.

Yn dilyn hyn, ceir dwy dudalen o 'Pethau buddiol a difyr i'w gwybod a'u cofio mewn perthynas i'r Beibl'. Gwybodaethau cwbl ddiddefnydd sydd yma fel, er enghraifft: bod 31,173 o adnodau yn y Beibl; 'yr adnod hwyaf yw Esther: 8:9, ac ynddi mae 93 o eiriau a 355 o lythrennau yn ôl argraffiad Rhydychen a 357 yn ôl argraffiad Caergrawnt'. Ceir rhestr hefyd o adnodau sydd yn cynnwys 'holl lythyrenau yr egwyddor'. Eitem arall i gyffroi'r plantos yw ysgrif ar 'Adda y Cyntaf a'r Ail Adda'. Onid oes argoel o stori gynhyrfus mewn agoriad fel hwn?

**Yr Adda cyntaf oedd greadur: yr ail Adda yw y Creawdwr . . . Y cyntaf a wnaed yn enaid byw; ond yr Adda diweddaf yn ysbryd yn bywhau . . . Yr Adda cyntaf oedd ben a cynddrychiolwr ei holl had naturiol, y rhai a syrthiasant ynddo ef.**

Ie; wel, h'm. Mae 'na rhyw betha', chwedl y diwinydd hwnnw o Rydddu y byddai T H Parry-Williams yn sôn amdano!

Nid oes yma ddim doniolwch: yr unig beth gweddol ysgafn yw y math o stori a elwid yn 'bert'. Fel hyn:

**Geneth fechan, 4 blwydd oed, o'i phen ei hun a ofynnodd i wraig 40 oed, 'Pwy oedd y dyn cyntaf?' Yr ateb a gafodd oedd: 'Ni wn i ddim yn wir.' 'Wel, mi wn i,' ebe'r eneth fach, 'Adda oedd.' 'Ni ddysgais i ddim pethau fel hyn'na erioed,' ebr y wraig. O anwybodaeth!**

Codwyd a chyfieithwyd peth o'r deunydd allan o gyhoeddiadau Saesneg y Religious Tract Society. Un enghraifft yw'r darn codigwallt-pen a elwid 'The Swearer's Prayer'. Trosiad o hwn yw ysgrif flaen rhifyn Awst 1826, sef 'Gweddi y Tyngwr neu ei Lw wedi ei esponio'. Deunydd go gry' i blantos oedd hwn dybiwn i, a'r awdur a'r cyfieithydd wrth eu bodd yn lambastio geiriau mawr fel:

**O Dduw, bydded i mi nid yn unig gael fy nghau allan o'r nefoedd, ond hefyd fy nghau i fyny yn uffern! Bydded i holl aelodau fy nghorph gael eu harteithio a gwasgfa anamgyffredadwy a holl alluoedd fy enaid eu poenydio a dychryn ac anobaith annhraethadwy a thragwyddol, bydded fy nhrigfa mewn caddug a thywyllwch a fy nghymdeithion yn ddynion melltigedig a diafliaid melltigedig!**

Cystal rhethreg gableddus â dim un tyngwr proffesiynol erioed!

* * * *

FEL GYDA'R cynnwys, felly hefyd yr arddull. Yr unig wahaniaeth rhwng yr erthyglau hyn a phenodau mewn llyfrau i oedolion yw eu bod yn fyr. Mae'n debyg y credid na allai plentyn deg oed barhau i ddarllen am fwy na rhyw ugain munud ar y tro.

Yr unig arwydd mai i blant y bwriedid y cyhoeddiad yw mai hanes plant yn hytrach na phobl mewn oed yn marw sydd ar ddechrau bron i bob rhifyn. Soniais eisoes am hyn. Rhaid cofio bod marwolaethau plant yn brofiad cyffredin iawn yn y 19 ganrif. Oes y teuluoedd mawr o ddeg a dwsin a mwy o blant oedd hi ac oes tlodi parhaus a digymorth ymhlith gwerin gyffredin.

Ond hefyd, oes yr afiechydon, — y diciau yn bennaf ond hefyd y frech wen a'r cryd coch ac o dro i dro, y colera a'r difftheria. Nid rhyfedd mai mater o siawns oedd cael iechyd da. Yn y trefi diwydiannol newydd fel Merthyr Tudful, yr oedd cyflwr carthffosiaeth, cyflenwad dŵr etc: yn gyntefig i'r eitha'.

Deng mlynedd ar hugain oedd yr einioes y gallai plentyn ei disgwyl yn y mannau diwydiannol: yn wir, yn ôl Asa Briggs, yr oedd y 'disgwyliad bywyd' yn llai yma nag ydoedd yn y ddeuddegfed ganrif!

Amodau fel hyn oedd yn cyflyru bywyd y cyfnod mewn sawl ffordd ac yn arbennig felly ei grefydd. Crefydd pobl wael o gorff, yn byw mewn ansicrwydd a thlodi ac afiechyd a welir yn y cofnodion am blant a oedd yn marw; crefydd arallfydol sy'n gweld y byd hwn fel math o affwys i ddianc ohono i fyd arall lle ceir popeth difyrrus nas cafwyd yma: yn neilltuol felly iechyd diddarfod. Fel yn y pennill hwn am ryw 'Sarah fach':

*Ond codwch olwg uwch y gro,*
*I'r fro mae'i henaid iach;*
*Mae Sarah yn y nef yn awr*
*Yn rhydd o holl ofidiau'r llawr.*

Saith oed oedd Sarah.

* * * *

YN 1861, cyhoeddwyd *Trysorfa y Plant* gan Thomas Levi ac ar unwaith, fe welir cryn newid arddull a chynnwys yn y rhifynnau misol. Yma ac acw, erys peth o'r hen ddeunydd dismol, ond nid hwnnw bellach sy'n bwysig.

Mae llawer o'r sgrifennu yn fywiog ac yn debycach i Gymraeg beunyddiol y dydd. Nid oes gennyf gopi o gyfrol gyntaf y cylchgrawn, ond wele ddechrau un stori am gael esgidiau newydd yn rhifyn cyntaf 1865:

**'Mam, mam, mae nhw'n mynd i gael ysgol wnio i ni, ac os bydd ar y plant eisieu esgidiau, mae digon i gael . . .'**

Newid mawr arall yw'r lluniau. Blociau wedi eu benthyg o gyhoeddiadau Saesneg tebyg yw'r rhan fwyaf, mi gredaf, ond ambell dro, ceir gwaith cartre. Pwy, tybed, oedd 'J.R. Treforis' a fu'n gwneud lluniau rhyfeddol o brennaidd yng nghyfrol 1865?

Wrth lwc, eithriadau yw ei waith ef, ond heddiw buasai ganddo siawns am enw fel artist modern rhyw -ism neu'i gilydd a chefnogaeth y Cyngor Celfyddydau.

Ac wrth edrych yma ar y lluniau go-iawn, pam fod eu plant bob amser yn rhai mor gnodlyd, yn enwedig y genod sydd, yn wir, yn dangos crymeddau merched ugain oed? Eto, ar y llaw arall, pan welir lluniau o ferched felly, maent wedi eu lapio mewn dillad mor llaes a chwmpasog nes bod yn debycach i styciau ŷd neu bebyll milwrol crynion yn cerdded!

Petai'n fyw, 'rwy'n siwr y buasai'r hen Freud yn ymddiddori'n fawr yn hyn. Ai rhywioldeb cywasgedig y dyn crefyddol fictoraidd, parchus a borthir gan luniau'r plant bach cnawdol hyn? Rhywbeth fel'na, synnwn i damaid.

Er bod cryn dipyn o'r hen ddeunydd moeswersol yn T.Y.P., 'roedd y golygydd yn gweld nad pobl mewn oed fach oedd plant. Fel gwrthbwynt i ambell ddarn o brydyddiaeth dismol fel 'Y Plentyn yn Marw' (t.208. op.cit) ceir 'Dyddanion' ar ddiwedd pob rhifyn; mân storïau sydd yn ffraeth — weithiau.

Rhoddir sylw hefyd i ambell lyfr newydd fel 'Y Bardd a'r Cerddor' gan Ceiriog, ond anodd yw meddwl am blant deg oed yn bwrw ati i dyrchu trwy *Puritan Divines*!